Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

CYNLLUN GWERS: **Dewis Diofal**

**MAES: Ymddygiad Cymdeithasol a Chymuned PWNC: Gyrwyr Ifanc, Cadw'n Ddiogel CYFNOD ALLWEDDOL: 4 a 5**

<table>
<tr><td colspan="2">Dylai swyddogion sicrhau eu bod wedi trafod cynnwys y wers â'r athro dosbarth a'u bod yn ymwybodol o unrhyw blentyn y gallai'r materion a fydd yn codi yn y wers effeithio arno. Dylai'r athro a staff eraill yr ysgol sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r plant gymryd rhan lawn yn y wers.<br><br>Mae cyngor mewn perthynas â phrofedigaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:<br>https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo/canllawiau-a-chyngor/cyngor-magu-plant/helpu-plant-drwy-brofedigaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiadau ag ABCh - deilliannau dysgu Cyfnod Allweddol 4:<br>Sgiliau → Datblygu Meddwl - Ystyried safbwyntiau gwahanol wrth wneud penderfyniadau hyddysg a dewis yn effeithiol.<br>Sgiliau → Datblygu Cyfathrebu - Gwerthfawrogi a gwerthuso safbwyntiau eraill yn feirniadol, ac adlewyrchu arnynt.<br>Sgiliau → Cydweithio ag Eraill - Adlewyrchu ar y rolau a gyflawnir mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arweinyddiaeth.<br>Ystod → Dinasyddiaeth Weithgar - Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill.<br>Ystod → Iechyd a Lles Emosiynol - Cymryd cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)<br>Erthygl 13 - Yr hawl i wybodaeth<br>Erthygl 19 - Ni ddylech gael eich niweidio<br>Erthygl 36 - Dylech gael eich amddiffyn rhag pethau sy'n eich niweidio<br>Erthygl 37 - Mae gennych yr hawl i gael eich trin yn deg os byddwch yn torri'r Gyfraith</td><td>Mae'r adnodd hwn yn helpu ysgolion i ddatblygu eu dulliau o ymdrin â Lles a Gofal, Cymorth ac Arweiniad fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN 2017.<br>Mae hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</td></tr>
<tr><td>Y Gyfraith:<br>Gweler y cynllun gwers isod ar gyfer manylion Cyfreithiau sy'n ymwneud â gwregysau diogelwch, tecstio, cyflymder, a gyrru dan</td><td>Diogelu plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)<br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">ddylanwad alcohol a chyffuriau.<br>Deddf Plant 1989 Deddf Addysg 2002<br>Cadarnhawyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (y Cenhedloedd Unedig, 1989) gan y DU ar 16 Rhagfyr 1991.</td><td>Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015)</td></tr>
<tr><td>Nod</td><td colspan="2">Pwysleisio canlyniadau gwrthdyniadau wrth deithio mewn car</td></tr>
<tr><td>Deilliannau Dysgu</td><td colspan="2">• gwybod am effaith gwrthdyniadau wrth deithio mewn car<br>• deall bod gan rai gweithrediadau ganlyniadau difrifol<br>• gallu gwneud y penderfyniadau cywir i gadw'n ddiogel wrth deithio<br>• dangos gofal ac ystyriaeth tuag at eraill<br>• gwybod beth yw'r Gyfraith mewn perthynas â throseddau gyrru<br>• datblygu empathi tuag at ddioddefwyr</td></tr>
<tr><td>Meini Prawf Llwyddiant</td><td colspan="2">Erbyn diwedd y wers:<br>• byddwch yn gallu deall canlyniadau gwrhdyniadau wrth deithio mewn car<br>• byddwch yn gwybod sut i wneud dewisiadau diogel wrth deithio<br>• byddwch yn meddu ar ddealltwriaeth o'r Gyfraith mewn perthynas â throseddau gyrru<br>• bydd gennych empathi tuag at ddioddefwyr<br>• byddwch yn gwybod pwy all helpu</td></tr>
<tr><td>Adnoddau</td><td colspan="2">1. Geiriau Allweddol A4<br>2. Deilliannau Dysgu A4<br>3. PowerPoint Dewis Diofal<br>4. Ffotograffau prif gymeriadau<br>5. Taflen luniau o'r bobl eraill yr effeithir arnynt<br>6. Siart droi, papur a phennau<br>7. Taflen ffeithiau 7/10fed o eiliad<br>8. Nodiadau 'post-it'</td></tr>
<tr><td>Geiriau allweddol</td><td colspan="2">cyfrifoldeb, risg, gwrthdyniad, pwysau cyfoedion, canlyniadau, euogrwydd</td></tr>
</table>

| Amlinelliad o'r Wers | Gweithgaredd | Disgrifiad | Amseru |
|---|---|---|---|
| | Cyflwyniad | **Dylech bob amser gadarnhau â'r staff a oes angen i ddisgybl gael ei esgusodi o'r wers hon oherwydd trawma/damwain car/profedigaeth ddiweddar, neu brofiadau tebyg.**<br>■ Sicrhewch fod y cysylltiad â'r dysgu blaenorol yn cael ei nodi a'i ddatblygu.<br>■ Crybwyllwch natur sensitif y pwnc a'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr.<br>■ Amlinellwch gytundeb yr ystafell ddosbarth am gyfrinachedd yn glir.<br>■ Esboniwch ac arddangoswch y deilliannau dysgu a'r geiriau allweddol. | 4 munud |
| **Mae'r wers wedi'i chynllunio i fod yn 60 munud o hyd.** | Asesu gwybodaeth a dysgu | ■ Sesiwn holi ac ateb gychwynnol | 2 funud |
| | Gweithgaredd 1 | ■ Gweithgaredd dosbarth tanio syniadau am wrthdyniadau wrth yrru (Rhan 1) | 3 munud |
| | Gweithgaredd 2 | ■ Gwylio clipiau DVD 1 a 2 | 10 munud |
| | Gweithgaredd 3 | ■ Cyflymder a phellter stopio | 3 munud |
| | Gweithgaredd 4 | ■ Adborth Tanio Syniadau (Rhan 2) | 5 munud |
| | Y Gyfraith | ■ Y Gyfraith ynglŷn â gyrru. | 5 munud |
| | Gweithgaredd 5 | ■ Gwaith grŵp i nodi canlyniadau gwrthdyniadau gan ddefnyddio clipiau DVD 3 a 4 | 10 munud |
| | Help, cefnogaeth a gwybodaeth bellach | ■ Trafodaeth Lawn ac Adolygu. | 10 munud |